Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt – Yn ôl â ni!

25/6/2020



Os bydd hi'n heulog:

Rydyn ni angen rhoi eli haul ymlaen cyn dod i'r ysgol. Byddwn yn gweithio tu allan gymaint â phosib, ond o dan cysgod y coed neu yn ein pebyll mawr newydd!

Os bydd hi'n bwrw glaw:

Rydyn ni angen dod â chot law achos byddwn ni dal yn mynd allan gymaint â phosib! Ymddiheuriadau os byddwn ychydig yn fwdlyd!

Dyma'r pethau eraill sydd angen arnom:

Pecyn bwyd mewn bag â gorchudd plastig neu focs plastig. Gwnewch yn siwr fod bwyd iachus yn y pecyn a byrbrydau ond peidiwch ddod ag unrhywbeth sy'n cynnwys cnau!

Diod o ddŵr mewn potel a ellir ei ail-lenwi a'i olchi.

Ni allwn ddod ag unrhywbeth arall o gwbl … dim llyfrau gwaith, peniau/pensiliau, llyfrau darllen, cit ymarfer corff … dim byd! Bydd popeth ar gael yn yr ysgol.

Bydd hi'n wahanol, ond bydd hi'n HWYL!!!